COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU BA GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD MAWRTH, 2 EBRILL 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd R M James – Cadeirydd

S Easterbrook P W Jenkins

Yn Bresennol yn Rhithiol

H T Bennett H Griffiths

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Gyfreithiwr |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |

Datganiadau o Fuddiant
Dim.

**49. Ethol Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Enwebwyd y Cynghorydd R M James yn unfrydol fel Cadeirydd gan y Pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 2 Ebrill 2024 |

## 50. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 2 Ebrill 2024 |

## 51. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 2 Ebrill 2024 |

## 52. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu B a gynhaliwyd 27/06/2023 a 31/01/2024 a hefyd cofnodion Is-bwyllgor Deddf Drwyddedu 2003 B fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 2 Ebrill 2024 |

## 53. Cais am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nododd yr aelodau bod y cais yn disgyn oddi allan i'r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd. Nododd yr aelodau ymhellach fod y Polisi ym mharagraff 2.2 yn caniatáu iddo gael ei lacio mewn amgylchiadau eithriadol, a manylwyd ar enghreifftiau o'r rhain ym mharagraff 2.4 o'r Polisi.<br><br>Yn dilyn archwiliad ffisegol o gerbyd Mercedes Benz S350, rhif cofrestru RG18 PFO ac a gofrestrwyd gyntaf ar 30/06/2018, penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol bod y cerbyd yn addas i'r pwrpas o safbwynt ei safon yn fewnol ac allanol yn ogystal â'i rinweddau diogelwch. Gan hynny, cymeradwywyd y drwydded gan yr Is-bwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 2 Ebrill 2024 |

## 54. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 2 Ebrill 2024 |

## 55. Eithrio'r Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd, dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau nesaf, gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A y Ddeddf.<br><br>Ar ôl cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyrid, ym mhob amgylchiadau sy'n ymwneud â'r eitem, bod y budd cyhoeddus yn cynnal yr esemptiad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeisydd a grybwyllwyd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | |

## 56. Cymeradwyo Cofnodion wedi'u Heithrio

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:15.